**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Tachwedd 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J A Hale | J W Jones |
| H M Morris | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| James Craven | Cydlynydd Cefnogi Ysgolion |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Helen Howells | Cydlynydd PDG |
| Melisa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Kelly Small | Pennaeth yr Uned Cyllid a Gwybodaeth |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

## 21 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 22 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Nodwyd Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe.

## 23 Llywodraeth Cymru - Teithio gan Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.

Nodwyd Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.

## 24 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn

Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 25 Apêl Cludiant i'r Ysgol.

Clywodd y Pwyllgor apêl gan riant y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â'r cymhwyster ar gyfer cludiant am ddim o'r cyfeiriad cartref i YGG Gŵyr.

Yna gwnaeth rhiant y disgybl sylwadau llafar i'r Pwyllgor i gefnogi ei chyflwyniadau ysgrifenedig ac amlinellodd amgylchiadau penodol ei hapêl mewn perthynas â sefyllfa bresennol y teulu o ran y disgybl a'i chwaer.

Roedd swyddogion o'r adrannau Addysg a Chludiant hefyd wedi rhoi sylwadau llafar i gefnogi'u cyflwyniadau ysgrifenedig.

Amlinellodd y swyddog cludiant y problemau ynghylch dalgylchoedd newidiol yr ysgol y gwnaed cais amdanynt i'r pwyllgor.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r apelydd a'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig yn llawn.

**Penderfynwyd** gwrthod yr apêl ar ran y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad gan nad oedd y pwyllgor yn teimlo bod amgylchiadau eithriadol i'r achos;

Daeth y cyfarfod I ben am 2.48 pm

**Cadeirydd**